# Ymchwilio i'r gofynion am wasanaethau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ymchwilio i'r gofynion am wasanaethau i fynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol yn y gymuned leol. Mae'n cynnwys eich gallu i ddadansoddi'r ddarpariaeth bresennol ac archwilio cyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaethau y mae eu hangen.

Mae'r safon hon i ymarferwyr sy'n cefnogi pobl sy'n cael profiad o gam-drin domestig, a all gynnwys achosion o drais rhywiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. casglu gwybodaeth am eich cymuned leol, sy'n llywio'ch dealltwriaeth o'r angen am wasanaethau'n gysylltiedig â cham-drin domestig neu drais rhywiol
2. cael adborth gan bobl eraill berthnasol am y ddarpariaeth gwasanaethau ar hyn o bryd a'r cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau
3. datblygu systemau i gasglu a rheoli gwybodaeth a deallusrwydd sy'n llywio ac sy'n ategu gofynion gwasanaethau
4. asesu adborth gan bobl eraill berthnasol i nodi tueddiadau a phatrymau sy'n awgrymu cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau i unigolion
5. nodi'r ddarpariaeth bresennol yn eich cymuned sy'n bodloni blaenoriaethau ac anghenion unigolion
6. nodi ffactorau sy'n effeithio ar ba un a yw unigolyn yn ymgymryd â gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli neu ar fynediad unigolyn at ddarpariaeth bresennol
7. rhannu eich dadansoddiad o anghenion a darpariaeth gwasanaethau, a'r nifer sy'n ymgymryd â gwasanaethau, gyda phobl berthnasol eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
8. rchwilio effaith eich dadansoddiad gyda phobl berthnasol eraill i amlygu cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth cymorth a gwasanaethau
9. cytuno ar gyfleoedd posibl gyda phobl berthnasol eraill i ddatblygu a gwella gwasanaethau yn eich cymuned i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol
10. cyflwyno gwybodaeth i bobl berthnasol eraill mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth
11. cynnal cyfrinachedd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol
12. cynnal cofnodion cyfredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni, ar gyfer:
2. mentrau cenedlaethol a lleol a'u heffaith er mwyn datblygu gwasanaethau ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol
3. darparu gwasanaethau i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol
4. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
5. cylch gwaith, rôl a gwasanaethau eich sefydliad ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol
6. rôl asiantaethau a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â mynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol a sut mae rôl, cylch gwaith a gwasanaethau eich sefydliad yn perthyn
7. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol
8. arwyddion o gam-drin domestig neu drais rhywiol, a'r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
9. effaith cam-drin ar bawb y mae wedi effeithio arnynt, gan gynnwys unigolion, plant a dibynyddion
10. mathau o wybodaeth a chymorth y mae pobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol yn eu ceisio, neu ffynonellau'r wybodaeth a'r cymorth hynny
11. mathau o wybodaeth sydd ar gael gan asiantaethau perthnasol a rhanddeiliaid eraill yn briodol i sefydlu anghenion am wasanaethau
12. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
13. dulliau o gael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth neu asiantaethau a rhanddeiliaid eraill
14. dulliau ymchwil perthnasol ar gyfer cael adborth a gwybodaeth
15. pwysigrwydd gwirio gwrthrychedd wrth werthuso adborth
16. ffactorau i'w hystyried wrth asesu dilysrwydd adborth
17. y goblygiadau y gall buddiannau pobl eraill eu cael wrth nodi a gwerthuso cyfleoedd am wasanaeth
18. natur a graddfa gwasanaethau a darpariaeth bresennol yn eich cymuned leol

19. demograffeg ac amrywiaeth eich cymuned leol a defnyddwyr eich gwasanaethau
20. tueddiadau, patrymau a datblygiadau yn y ddarpariaeth gwasanaethau
21. pwysigrwydd gwirio am fylchau yn y ddarpariaeth bresennol o gymharu ag anghenion eich cymuned leol, a sut i wneud hynny
22. pwysigrwydd cadarnhau bod eich ymchwil yn ddigonol i gyfiawnhau casgliadau a lunnir o'i chanlyniadau
23. pwysigrwydd cadarnhau bod y cyfleoedd a nodwyd yn bodloni rôl, cylch gwaith a gwasanaethau eich sefydliad
24. ffynonellau gwybodaeth a chymorth wrth ymchwilio i anghenion y gymuned ac archwilio'r anghenion hynny
25. cyfleoedd i ehangu'r gwasanaethau a ddarperir

## Sgiliau